

Strategaeth Toiledau Lleol

Adroddiad Cynnydd

Chwefror 2022

sirgar.llyw.cymru

Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council



Cynnwys	Tudalen
Cyflwyniad	1
Argymhellion y Strategaeth Toiledau Lleol	2
Cynnydd	3
Y Camau Nesaf	10
Atodiad A, Rhestr Gyfredol o Gyfleusterau ..	12

Cyflwyniad

Cyhoeddodd Cyngor Sir Caerfyrddin ei Strategaeth Toiledau Lleol ym mis Awst 2019 ar ôl cyflwyno Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Rhan 8, sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer eu hardal.

Mae'r strategaeth yn nodi'r safbwynt strategol hirdymor ar sut y gellir darparu'r cyfleusterau hyn a sut y gall ein poblogaeth leol ac ymwelwyr gael mynediad atynt.

Nod y strategaeth yw galluogi ystyriaeth ehangach o'r opsiynau sydd ar gael o ran darparu toiledau at ddefnydd y cyhoedd, yn amrywio o doiledau cyhoeddus annibynnol traddodiadol i doiledau sy'n eiddo preifat, a chynyddu nifer y toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd drwy greu partneriaethau â busnesau, sicrhau bod cyfleusterau ar gael yn adeiladau addas y Cyngor ac annog integreiddio cyfleusterau hygyrch i unrhyw adeilad newydd lle bo hynny'n ymarferol.

Nid oes gofyniad statudol i awdurdodau lleol ddarparu toiledau cyhoeddus, fodd bynnag, nod y strategaeth yw lliniaru effeithiau posibl lle gallai cyfleusterau toiled gael eu colli a gwella'r ddarpariaeth drwy ffyrdd creadigol ychwanegol.

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Rhan 8, hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi a chyhoeddi adroddiad cynnydd ar ôl cyfnod o ddwy flynedd ers y cyhoeddiad cyntaf. Mae'r adroddiad cynnydd hwn felly'n amlinellu'r hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yma yn unol â'r cynllun gweithredu sydd ynddo.

Nid diben yr adroddiad hwn fu cynnal adolygiad sylfaenol o'r Strategaeth Toiledau Lleol. Yn hytrach, mae'n asesiad o'r cynnydd a wnaed hyd yma.

Nododd Strategaeth Toiledau Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin 10 argymhelliad i gefnogi a gwella argaeledd cyfleusterau cyhoeddus ac ymwybyddiaeth ohonynt yn y sir.

Crynodeb o Argymhellion y Strategaeth Toiledau Lleol

Mewn partneriaeth â Chymdeithas Toiledau Prydain, nododd Strategaeth Toiledau Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin 10 argymhelliad allweddol i wella darpariaeth toiledau hirdymor Sir Gaerfyrddin:

1. Adolygiad o'r holl gyfleusterau toiled presennol – lleoliad/mapio ac oriau agor
2. Nodi ac annog cyfleusterau eraill y Cyngor i fod ar gael yn fwy i'r cyhoedd
3. Creu cysylltiadau partneriaeth â chwmnïau a sefydliadau cyhoeddus/preifat
4. Ymchwilio i'r opsiynau o ran Cynllun Toiledau Partneriaeth Gymunedol
5. Sicrhau darpariaeth ddigonol o gyfleusterau toiledau cludadwy megis yn ystod digwyddiadau dros dro
6. Annog gosod toiledau Changing Places mewn adeiladau newydd priodol
7. Archwilio'r opsiynau o ran codi tâl i ddileu camddefnydd cymdeithasol a fandaliaeth lle bo hynny'n briodol
8. Gwella cyfathrebu a gwybodaeth am y cyfleusterau toiled sydd ar gael
9. Sicrhau bod data ar doiledau cyhoeddus ar gael ar Ap Mapio Llywodraeth Cymru (Lle - Map Cenedlaethol o Doiledau)
10. Lle bo'n briodol, ystyried cynnwys darpariaeth toiledau yn unol â'r polisi cynllunio a'r canllawiau cynllunio cenedlaethol.

Cynnydd o ran Cyflawni Manteision y Strategaeth


Hyd yma, yn unol â'r camau a argymhellir yn y strategaeth, rydym wedi cynyddu nifer y cyfleusterau sydd ar gael i'r cyhoedd o 40 i 63. Mae hyn yn gynydd o 57 y cant.

1. Adolygiad o'r holl gyfleusterau toiled presennol – lleoliad/mapio ac oriau agor

Cynhaliwyd adolygiad o gyfleusterau toiled cyhoeddus annibynnol traddodiadol Cyngor Sir Caerfyrddin a'r Cynghorau Tref/Cymuned. Mae'r cyfleusterau hyn wedi'u mapio ar wefan gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae gan bob lleoliad sydd wedi'i fapio ddata ychwanegol (drwy chwyddo a chlicio ar eicon y lleoliad perthnasol, ffigur 2) sy'n cynnwys oriau agor a chyfrifoldeb gweithredol, ac mae'n rhoi gwybodaeth ynghylch a godir tâl. (Gweler ffigur 1 a 2)



(Ffigur 1)



(Ffigur 2)

Nododd yr adolygiad hwn nifer o gyfleusterau eraill sydd wedi'u hychwanegu at y manylion mapio ar y wefan gorfforaethol ers hynny, gan gynnwys gwybodaeth unigol berthnasol.

2. Nodi ac annog cyfleusterau toiled eraill y Cyngor i fod ar gael yn fwy i'r cyhoedd

Hefyd, cynhaliwyd adolygiad o gyfleusterau mewnol i nodi adeiladau priodol sy'n hygyrch i'r cyhoedd lle byddai'r lleoliad, mynediad a'r amgylchiadau yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd eu defnyddio, megis llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a swyddfeydd. Nododd yr adolygiad hwn 15 o gyfleusterau toiled pellach sydd wedi'u hychwanegu at wefan gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin a chyfleuster mapio Lle Llywodraeth Cymru. Barnwyd bod nifer fach o doiledau yn adeiladau'r Awdurdod yn anaddas i'r cyhoedd eu defnyddio oherwydd bod y cyfleusterau yn bell o fynedfa neu fan cyhoeddus yr adeilad.

Nodwyd a rhestrowyd y lleoliadau ychwanegol canlynol yn lleoliadau addas ar gyfer mynediad i'r cyhoedd:

- Tŷ Elwyn, Llanelli
- Y Ffwrnes, Llanelli
- Y Lyric, Caerfyrddin
- Canolfan Hamdden Sanclêr

- Canolfan Hamdden Castellnewydd Emlyn
- Adeiladau'r Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo
- Canolfan Hamdden Caerfyrddin
- Canolfan Hamdden Llanelli
- Llyfrgell Rhydaman
- Llyfrgell Llanymddyfri
- Llyfrgell Caerfyrddin
- Canolfan Hamdden Dyffryn Aman
- Pwll Nofio Llanymddyfri
- Llyfrgell Llanelli
- Llyfrgell Porth Tywyn

3. Archwilio cysylltiadau partneriaeth posibl â chwmnïau a sefydliadau cyhoeddus/preifat

Oherwydd sefyllfa'r pandemig, mae'r camau hyn wedi'u gohirio dros dro. Wrth i'r cyfyngiadau Covid-19 gael eu llacio ac wrth i gyfraddau trosglwyddo sefydlogi ac, yn hollbwysig, wrth i hyder gynyddu ymhlith cwmnïau a sefydliadau, gellir cysylltu â nhw i gadarnhau a ydynt yn awyddus i helpu o ran darpariaeth addas yn y dyfodol.

4. Cynllun Toiledau Cymunedol/Cysur

Mae'r Bartneriaeth Toiledau Gymunedol yn gynllun a reolir sy'n ceisio manteisio ar y ddarpariaeth toiledau sydd ar gael eisoes ar sail fwy ffurfiol i wella'r ddarpariaeth bresennol. Mae'r cynllun yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd ddefnyddio'r cyfleusterau toiled mewn amrywiaeth o fusnesau lleol cymeradwy a sefydliadau eraill yn ystod eu horiau agor heb brynu unrhyw nwyddau neu wasanaethau. Mae'r safleoedd sy'n cymryd rhan yn ymrwymo i gadw eu toiledau'n ddiogel, yn lân, yn hylan, yn hawdd eu cyrraedd ac wedi'u stocio'n dda. Yn gyfnewid am hyn, maent yn derbyn taliad grant blynyddol yn seiliedig ar yr ystod o gyfleusterau y gallant eu cynnig.

Mae hefyd yn ofynnol i'r rheiny sy'n cymryd rhan yn y cynllun arddangos sticer yn eu ffenestr (logo cenedlaethol y cynllun a ddarperir gan Lywodraeth Cymru) a chytuno y gellir archwilio eu cyfleusterau'n rheolaidd heb rybudd ymlaen llaw, i sicrhau ansawdd, hygrychedd a glendid. Rhagwelir y bydd y busnesau'n gweld mwy o ymwelwyr a gallai hynny annog defnyddwyr i ddychwelyd i'r busnesau hynny yn y dyfodol.

Unwaith eto, oherwydd y pryderon parhaus ymhlith busnesau mewn perthynas â'r pandemig Covid-19, ataliwyd gweithgarwch ar y fenter (Cynllun Toiledau Cymunedol ledled y sir) yn fuan ar ôl ei sefydlu, gan fod y rhan fwyaf o doiledau hygrych mewn canolfannau siopa a sefydliadau busnes eraill wedi cau yn sgil y cyfyngiadau symud.

I ddechrau, nodwyd bod ardal siopa Pen-sarn yng Nghaerfyrddin yn ardal â blaenoriaeth uchel oherwydd diffyg darpariaeth. Yn dilyn trafodaethau gyda'r holl sefydliadau busnes perthnasol yn y cyffiniau, nodwyd bod gan un siop gyfleusterau toiled mewn lle priodol a allai fod ar gael i'r cyhoedd. O ganlyniad, cymerodd y sefydliad hwn ran yn y cynllun cyn y cyfyngiadau symud cenedlaethol.

Mae pryderon o hyd gan safleoedd busnes yn gyffredinol ynghylch agor eu cyfleusterau i bobl nad ydynt yn gwsmeriaid oherwydd y sefyllfa barhaus o ran Covid-19. Fodd bynnag, wrth i ddirifoldeb y pandemig leihau ac wrth i hyder ddychwelyd, rhagwelir y bydd llawer o fusnesau addas yn barod i gymryd rhan yn y cynllun. Felly, dylai dull wedi'i dargedu o ymdrin â safleoedd busnes priodol hwyluso cynnydd yn nifer y toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd wrth i sefyllfa'r pandemig sefydlogi.

5. Darpariaeth Toiledau Cludadwy

O ran digwyddiadau mwy, rhoddir cyngor ynghylch darparu digon o doiledau ac ati mewn digwyddiadau gan y Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Mae'r Grŵp Cynghori yn cynnwys cynrychiolwyr y Cyngor Sir (priffyrdd/rheoli traffig, iechyd yr amgylchedd, trwyddedu, marchnata), Heddlu Dyfed-Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru.

Gofynnir i ddigwyddiadau sy'n cael eu cyfeirio at y Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch lunio Cynllun Rheoli Digwyddiad yn ogystal ag unrhyw gais am drwydded.

Mae templedi Cynllun Rheoli Digwyddiad ar gael i'w lawrlwytho oddi ar wefan gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin ac maent yn cynnwys rhan berthnasol ar ddarparu/ystyried toiledau.

O ran digwyddiadau llai na fyddant o bosibl yn cael eu cyfeirio at y Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch, mae tudalen benodol ar Drwyddedu ar gyfer Digwyddiadau, [Trwyddedu ar gyfer digwyddiadau \(llyw.cymru\)](#) sy'n cynnwys dolen i'r strategaeth toiledau.

Cynghorir trefnwyr digwyddiadau ynghylch y ddarpariaeth toiledau briodol yn unol â'r Canllaw Porffor ar-lein sydd wedi'i ysgrifennu drwy ymgynghori â Fforwm y Diwydiant Digwyddiadau a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Dangosir y canllawiau presennol ar ddarpariaeth toiledau cludadwy mewn digwyddiadau yn y tabl isod.

	Toiledau Menywod	Toiledau Dynion
Ar gyfer digwyddiadau lle mae'r gatiâu ar agor am lai na 6 awr	1 am bob 100	1 am bob 500, ac 1 wrinol am bob 150
Ar gyfer digwyddiadau lle mae'r gatiâu ar agor am 6 awr neu fwy, ond lle nad oes fawr ddim alcohol na bwyd yn cael eu gweini	1 am bob 85	1 am bob 425, ac 1 wrinol am bob 125
Ar gyfer digwyddiadau lle mae'r gatiâu ar agor am 6 awr neu fwy, a lle caiff tipyn o alcohol a bwyd eu gweini	1 am bob 75	1 am bob 400, ac 1 wrinol am bob 100
Ar gyfer safleoedd gweryslla mewn digwyddiadau mawr, lle mae'r pwyslais yn newid o wrinol i doiledau i ddynion	1 am bob 75	1 am bob 150, ac 1 wrinol am bob 250

6. Toiledau Changing Places

Gan nad yw toiledau hygyrch safonol yn diwallu anghenion pawb ag anabledd, yn aml mae angen lle ac offer ychwanegol ar rai pobl i'w galluogi i ddefnyddio'r cyfleusterau'n ddiogel ac yn gyfforddus. Mae toiledau Changing Places yn diwallu'r anghenion hyn.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad ar ei chynigion i gynyddu'r ddarpariaeth toiledau Changing Places a chyfleusterau newid cewynnau mewn rhai mathau o adeiladau ac i ddiwygio canllawiau Dogfen Gymeradwy M ar gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu (sy'n ymwneud â mynediad i adeiladau a'r defnydd ohonynt). Bydd y cynigion yn caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol wella darpariaethau toiledau Changing Places yn ychwanegol at y gofyniad sylfaenol.

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru a bydd manylion am y canlyniad yn cael eu cyhoeddi maes o law.

Ar hyn o bryd mae pedwar toiled Changing Places yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r rhain wedi'u lleoli yng Nghaerfyrddin (Cartrefi Cymru), Cydweli (Siop Fferm a Chaffi Parc y Bocs), Rhydaman (Tesco) a chyfleuster a osodwyd yn ddiweddar yng Nghanolfan Sgïo a Gweithgareddau Pen-bre.

Mae rhagor o doiledau Changing Places wedi'u cynllunio yn y lleoliadau canlynol:

Hostel Pentywyn (Caban) – bydd y lleoliad hwn yn elwa o'r holl offer penodedig sydd eu hangen ar gyfer cyfleuster Changing Places, fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau'r cynllun, nid yw'n gallu bodloni union ofynion y fanyleb o ran lleoliad. Felly, ni fydd y cyfleuster hwn yn cael ei hysbysebu fel uned Changing Places lawn.

Mae dau gyfleuster Changing Places wedi'u cynllunio yn y Ganolfan Lesiant / Pentre Awel newydd yn Llanelli. Mae hyn yn rhan o brosiect datblygu ar raddfa fawr a'r arwyddion ar hyn o bryd yw y bydd yn cael ei gwblhau ddechrau 2024.

Mae un uned Changing Places arall hefyd wedi'i chynllunio ar lawr gwaelod Theatr y Ffwrnes yn Llanelli.

Bydd disgwyl i gyfleusterau Changing Places fod yn elfen annatod o ddyluniad y rhan fwyaf o adeiladau a chyfleusterau newydd y Cyngor lle darperir mynediad cyffredinol i'r cyhoedd. Bydd darpariaeth o'r fath yn cael ei hannog mewn adeiladau newydd eraill nad ydynt yn eiddo i'r Cyngor a lle darperir mynediad i'r cyhoedd, lle bo hynny'n briodol.

7. Codi tâl – helpu i ddileu camddefnydd cymdeithasol a fandaliaeth

Nid ydym yn profi unrhyw fandaliaeth sylweddol na chamddefnydd cymdeithasol mewn cyfleusterau lle na chodir tâl eisoes. Felly, nid oes bwriad ar hyn o bryd i gyflwyno mecanweithiau codi tâl mewn lleoliadau ychwanegol. Fodd bynnag, bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu'n barhaus a gellir ystyried cyflwyno taliadau i atal camddefnydd lle mae problemau parhaus yn codi.

8. Gwella Cyfathrebu a Gwybodaeth am y cyfleusterau toiled sydd ar gael

Mae gwybodaeth fanwl am leoliadau ac oriau agor wedi'i hychwanegu at wefan gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin (map cyfleusterau cyhoeddus). Dangosir manylion pob lleoliad drwy glicio ar eicon y lleoliad. Darperir gwybodaeth fanwl hefyd drwy Lle – porth mapio Llywodraeth Cymru.

Er bod rhai o'r camau marchnata wedi'u gohirio yn sgil y pandemig, mae'r sector twristiaeth bellach yn gwbl agored, ac mae'r Cyngor Sir yn ymgymryd â nifer o gamau gweithredu fel rhan o'i gynllun adfer economaidd.

Rhagwelwyd y byddai rhannau o'r Deyrnas Unedig yn brysur iawn o'r Pasg 2021 ymlaen, pan gafodd y prif gyfyngiadau symud eu llacio, ac roedd posibilrwydd y byddai ardaloedd yn cael eu llethu gan nifer y twristiaid. Er mwyn helpu i reoli'r sefyllfa, sefydlodd y Cyngor Sir weithgor trawsadrannol i gyfarfod yn wythnosol er mwyn rheoli'r "Mannau Poblogaidd" yn Sir Gaerfyrddin a chydweithio i ddyrannu adnoddau.

Rhan o'r gwaith a wnaed oedd arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid a chynhaliwyd dros 400 o gyfweliadau wyneb yn wyneb. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn hynod o gadarnhaol

o ran mwynhau eu profiad a'i ansawdd. O ran y cwestiwn "Beth yw eich barn am yr agweddau canlynol ar eich ymweliad heddiw?", roedd 88% o'r farn bod glendid y toiledau cyhoeddus yn dda neu'n uwch. Yn yr adran a oedd yn gofyn i ymwelwyr beth allem ei wneud i wella, a beth fyddai'n gwella eu canfyddiad ynghylch ymweliadau yn y dyfodol, ymatebodd pobl drwy ddweud y byddai gwell arwyddion a dehongliadau ar fyrddau gwybodaeth o fudd.

Ein nod yn ystod gaeaf 2021 yw gweithio gyda'r 10 gweithgor tref sydd newydd eu ffurfio ar y cynnwys a'r gwasanaethau y mae angen eu harddangos ar y paneli gwybodaeth a fydd yn cael eu gosod ar ôl cynnal dadansoddiad llif cwsmeriaid ar gyfer pob ardal. Fel y nodwyd yn yr ymchwil ymwelwyr, bydd toiledau cyhoeddus yn cael eu cynnwys a'u hamlygu'n flaenoriaeth ar yr arwyddion yn y Mannau Gwybodaeth i Ymwelwyr. Mae enghreifftiau drafft o'r arwyddion hyn ar gyfer Mannau Gwybodaeth i Ymwelwyr bellach wedi'u cynhyrchu ar gyfer y rhan fwyaf o'r trefi yn y sir.

Sianel hyrwyddo allweddol arall yw gwefan Darganfod Sir Gâr sy'n cael ei hadnewyddu ar hyn o bryd. Bydd gwybodaeth am gyfleusterau cyhoeddus yn cael ei harddangos ar dudalen we pob tref yn ogystal â'r tudalennau gweithgareddau perthnasol, megis cerdded a beicio ar y ffordd.

9. Sicrhau bod data ar doiledau cyhoeddus ar gael ar Ap Mapio Llywodraeth Cymru (Lle - Map Cenedlaethol o Doiledau)

Rhoddyd gwybodaeth fanwl am y cyfleusterau toiled sydd ar gael i Lle - Map Cenedlaethol o Doiledau. Dyma'r wybodaeth a roddir i'r porth am bob cyfleuster:

- Lleoliad.
- UPRN (Cyfeirnod Unigryw'r Eiddo).
- Cyfesurynnau.
- Côd Post.
- Nodiadau ynghylch mynediad (er enghraifft, a godir tâl neu a oes unrhyw ffactorau eraill o ran mynediad, fel grisiau).
- Oriau agor dyddiol.
- Gwybodaeth am y tymor llai prysur (er enghraifft, newid oriau agor a'r amseroedd perthnasol).
- Oriau agor ar wyliau banc (os ydynt yn wahanol i'r oriau gweithredu arferol).
- Y mathau o giwbiclau sydd ar gael (menywod / dynion / toiled i'r ddau ryw / newid cewynnau / toiled i bobl anabl (mynediad agored neu fynediad ag allwedd Radar) / Changing Places.

<https://datamap.gov.wales/maps/new?layer=inspire-wg:Toilets>

10. Lle bo'n briodol, ystyried cynnwys darpariaeth toiledau yn unol â'r polisi cynllunio a'r canllawiau cynllunio cenedlaethol.

Fel rhan o'r gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2018-2033, y bwriad oedd ystyried y cyfleoedd i integreiddio'r canllawiau a'r gofynion polisi o ran darparu cyfleusterau cyhoeddus. Bydd cynnwys y canllawiau yn llywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol a bydd canlyniadau'r broses baratoi yn cael eu hadlewyrchu mewn fersiynau o'r strategaeth yn y dyfodol. Lle bo'n briodol, bydd materion yn ymwneud â chynnwys a darparu cyfleusterau toiled mewn datblygiadau yn cael eu hystyried yn unol â'r polisi cynllunio a'r canllawiau cynllunio cenedlaethol.

Nodir bod mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig wedi'i ohirio oherwydd effeithiau Covid-19 a chyhoeddi canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar lefelau ffoffad mewn afonydd gwarchoddedig a nodwyd. Bydd amserlen fabwysiadu wedi'i diweddaru ar gael maes o law.

Y Camau Nesaf

Yn unol â'r canllawiau mewnol ac yn dibynnu ar yr amgylchiadau cyfredol o ran Covid-19, defnyddir dull wedi'i dargedu i annog busnesau priodol i gymryd rhan yn y Cynllun Toiledau Cymunedol. Rhagwelir y bydd y cynllun hwn yn golygu cynnydd yn nifer y cyfleusterau toiled sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn y prif fannau lle mae angen.

Cynhelir adolygiad parhaus o'r toiledau sydd wedi'u nodi ar hyn o bryd, gan gynnwys unrhyw newidiadau i'r oriau agor a'r mathau o gyfleusterau sydd ar gael. Bydd safleoedd ychwanegol addas hefyd yn cael eu hychwanegu at y rhestr o doiledau sydd ar gael, er enghraifft, adeiladau newydd / cyfleusterau toiled, swyddfeydd priodol a lleoliadau arfaethedig y Cynllun Toiledau Cymunedol.

Bydd y Strategaeth Toiledau Lleol yn cael ei hadolygu'n ffurfiol o fewn blwyddyn i bob etholiad cyffredin. Dyddiad yr etholiad nesaf yng Nghymru yw dydd Iau 5 Mai 2022. Felly, y dyddiad olaf ar gyfer adolygu Strategaeth Toiledau Lleol Sir Gaerfyrddin fydd 4 Mai 2023.

Rhestr Gyfredol o Doiledau Cyhoeddus

Mae'r cyfleusterau a ddangosir isod ond yn arwydd o'r ddarpariaeth toiledau gyffredinol yn y sir. Efallai y bydd toiledau ychwanegol ar gael i'r cyhoedd ond nad ydynt wedi'u cynnwys yma am nad ydynt yn cael eu hysbysebu felly. Yn benodol, bydd safleoedd masnachol sy'n darparu cyfleusterau i gwsmeriaid.

ATODIAD A Darpariaeth toiledau cyhoeddus gyfredol Sir Gaerfyrddin

		Cyfleusterau sydd ar gael															
Enw'r Lleoliad	Côd Post	Dynion yn unig	Menywod yn unig	Toiled i'r ddau ryw	Newid cewynnau					Pobl anabl						Changing Places (sy'n cynnwys cyfleusterau newid i oedolion, teclynnau codi, ac ati, ar gyfer pobl ag anabledau dwys a'u gofalwyr)	
					toiled dynion	toiled menywod	toiled i'r ddau ryw	toiledau ar wahân	toiled i bobl anabl	Mynediad agored			Ar glo (RADAR)				
										dynion yn unig	menywod yn unig	toiled i'r ddau ryw	dynion yn unig	menywod yn unig	toiled i'r ddau ryw		
Rhydaman - Maes Parcio Carregaman	SA18 3EL	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Caerfyrddin - Maes Parcio Heol Ioan	SA31 1QT	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Caerfyrddin - Maes Parcio San Pedr	SA31 1LN	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Talacharn ger y Castell	SA33 4SP	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Maes Parcio Llandeilo	SA19 6HL	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Maes Parcio Llanymddyfri	SA20 0AB	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Llanelli ger Neuadd y Dref	SA15 3AH	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes

		Cyfleusterau sydd ar gael															
Enw'r Lleoliad	Côd Post	Dynion yn unig	Menywod yn unig	Toiled i'r ddau ryw	Newid cewynnau					Pobl anabl						Changing Places (sy'n cynnwys cyfleusterau newid i oedolion, teclynnau codi, ac ati, ar gyfer pobl ag anabledau dwys a'u gofalwyr)	
					toiled dynion	toiled menywod	toiled i'r ddau ryw	toiledau ar wahân	toiled i bobl anabl	Mynediad agored			Ar glo (RADAR)				
										dynion yn unig	menywod yn unig	toiled i'r ddau ryw	dynion yn unig	menywod yn unig	toiled i'r ddau ryw		
Llanelli Porth y Dwyrain Yr Orsaf Fysiau	SA15 1SG	Nac oes	Nac oes	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Maes Parcio Sanclêr	SA33 4AG	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Abergorlech - Canol y Pentref	SA32 7SN	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Alltwalis - Canol y Pentref	SA32 7EB	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Rhydaman - Parc Canol y Dref	SA18 3BE	Oes	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Rhydaman - Maes Parcio'r Co-op	SA18 1DL	Oes	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Brechfa - Canol y Pentref	SA32 7RA	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Gorsaf Reilffordd Porth Tywyn	SA16 0EP	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Cenarth	SA38 9JL	Oes	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes

		Cyfleusterau sydd ar gael															
Enw'r Lleoliad	Côd Post	Dynion yn unig	Menywod yn unig	Toiled i'r ddau ryw	Newid cewynnau					Pobl anabl						Changing Places (sy'n cynnwys cyfleusterau newid i oedolion, teclynnau codi, ac ati, ar gyfer pobl ag anabledau dwys a'u gofalwyr)	
					toiled dynion	toiled menywod	toiled i'r ddau ryw	toiledau ar wahân	toiled i bobl anabl	Mynediad agored			Ar glo (RADAR)				
										dynion yn unig	menywod yn unig	toiled i'r ddau ryw	dynion yn unig	menywod yn unig	toiled i'r ddau ryw		
Cynwyl Elfed	SA33 6TU	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Glanyfferi - Mynedfa'r Traeth	SA17 5TD	Oes	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Glanaman - Sgwâr Cwmaman	SA18 1DZ	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Gors-las ger y parc	SA14 7HP	Oes	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Cydweli - Canol y Dref	SA17 4UU	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Llanboidy - Canol y Pentref	SA34 0EL	Oes	Oes	Nac oes	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Llanddowror - Heol Dinbych-y-Pysgod	SA33 4HJ	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Maes Parcio Traeth Llansteffan	SA33 5JX	Oes	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes

		Cyfleusterau sydd ar gael															
Enw'r Lleoliad	Côd Post	Dynion yn unig	Menywod yn unig	Toiled i'r ddau ryw	Newid cewynnau					Pobl anabl						Changing Places (sy'n cynnwys cyfleusterau newid i oedolion, teclynnau codi, ac ati, ar gyfer pobl ag anabledau dwys a'u gofawyr)	
					toiled dynion	toiled menywod	toiled i'r ddau ryw	toiledau ar wahân	toiled i bobl anabl	Mynediad agored			Ar glo (RADAR)				
										dynion yn unig	menywod yn unig	toiled i'r ddau ryw	dynion yn unig	menywod yn unig	toiled i'r ddau ryw		
Sgwâr Llanybydder	SA40 9TX	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Y Meinciau ger y Neuadd Gymunedol	SA17 5LE	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Castellnewydd Emlyn ger y Mart	SA38 9AD	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Neuadd Farchnad Castellnewydd Emlyn	SA38 9AS	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Canolfan Parry Thomas, Traeth Pentwyn	SA33 4NY	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Hendy-gwyn ar Daf - Stryd y Gorllewin	SA34 0AB	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Park Howard Llanelli	SA15 3JQ	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Marchnad Llanelli	SA15 1YH	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes

		Cyfleusterau sydd ar gael														
Enw'r Lleoliad	Côd Post	Dynion yn unig	Menywod yn unig	Toiled i'r ddau ryw	Newid cewynnau					Pobl anabl						Changing Places (sy'n cynnwys cyfleusterau newid i oedolion, teclynnau codi, ac ati, ar gyfer pobl ag anabledau dwys a'u gofalywyr)
					toiled dynion	toiled menywod	toiled i'r ddau ryw	toiledau ar wahân	toiled i bobl anabl	Mynediad agored			Ar glo (RADAR)			
										dynion yn unig	menywod yn unig	toiled i'r ddau ryw	dynion yn unig	menywod yn unig	toiled i'r ddau ryw	
Marchnad Caerfyrddin	SA31 1QY	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Tŷ Bryste, A48	SA4 0FS	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Meidrim - Maes Parcio	SA33 5QL	Oes	Oes	Nac oes	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Llandybie	SA18 3HY	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Pen-y-groes	SA14 7RP	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Ffarmers	SA19 8LQ	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Ffaldybrenin	SA19 8QR	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Llansawel	SA19 7JF	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Parc Gwledig Pen-bre – Canolfan Sgio	SA16 0EJ	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes

		Cyfleusterau sydd ar gael														
Enw'r Lleoliad	Côd Post	Dynion yn unig	Menywod yn unig	Toiled i'r ddau ryw	Newid cewynnau					Pobl anabl						Changing Places (sy'n cynnwys cyfleusterau newid i oedolion, teclynnau codi, ac ati, ar gyfer pobl ag anabledau dwys a'u gofalwyr)
					toiled dynion	toiled menywod	toiled i'r ddau ryw	toiledau ar wahân	toiled i bobl anabl	Mynediad agored			Ar glo (RADAR)			
										dynion yn unig	menywod yn unig	toiled i'r ddau ryw	dynion yn unig	menywod yn unig	toiled i'r ddau ryw	
Siop Fach Traeth Cefn Sidan	SA16 0EJ	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Tŷ Elwyn, Llanelli	SA15 3AA	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Caffi'r Orsaf, Parc Gwledig Pen-bre (y toiledau y tu allan)	SA16 0EJ	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Y Ffwrnes, Llanelli	SA15 3YE	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Y Lyric, Caerfyrddin	SA31 1BD	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Canolfan Hamdden Sanclêr	SA33 4BT	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Canolfan Hamdden Castellnewydd Emlyn	SA38 9LN	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Adeiladau'r Cyngor, Llandeilo	SA19 6HW	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Canolfan Hamdden Caerfyrddin	SA31 3NQ	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes

		Cyfleusterau sydd ar gael														
Enw'r Lleoliad	Côd Post	Dynion yn unig	Menywod yn unig	Toiled i'r ddau ryw	Newid cewynnau					Pobl anabl						Changing Places (sy'n cynnwys cyfleusterau newid i oedolion, teclynnau codi, ac ati, ar gyfer pobl ag anabledau dwys a'u gofalwyr)
					toiled dynion	toiled menywod	toiled i'r ddau ryw	toiledau ar wahân	toiled i bobl anabl	Mynediad agored			Ar glo (RADAR)			
										dynion yn unig	menywod yn unig	toiled i'r ddau ryw	dynion yn unig	menywod yn unig	toiled i'r ddau ryw	
Canolfan Hamdden Llanelli	SA15 3AE	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Llyfrgell Rhydaman	SA18 3DN	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Llyfrgell Llanyddyfri	SA20 0AA	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Llyfrgell Caerfyrddin	SA31 1LN	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Canolfan Hamdden Dyffryn Aman	SA18 2NP	Oes	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Pwll Nofio Llanyddyfri	SA20 ODY	Oes	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Llyfrgell Llanelli	SA15 3AS	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Llyfrgell Porth Tywyn	SA16 OAE	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Parc Gwledig Llyn Llech Owain	SA14 7NF	Oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Parc Caerfyrddin	SA31 3AX	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes

		Cyfleusterau sydd ar gael															
Enw'r Lleoliad	Côd Post	Dynion yn unig	Menywod yn unig	Toiled i'r ddau ryw	Newid cewynnau					Pobl anabl						Changing Places (sy'n cynnwys cyfleusterau newid i oedolion, teclynnau codi, ac ati, ar gyfer pobl ag anabledau dwys a'u gofalwyr)	
					toiled dynion	toiled menywod	toiled i'r ddau ryw	toiledau ar wahân	toiled i bobl anabl	Mynediad agored			Ar glo (RADAR)				
										dynion yn unig	menywod yn unig	toiled i'r ddau ryw	dynion yn unig	menywod yn unig	toiled i'r ddau ryw		
Ger Canolfan Ddarganfod Doc y Gogledd Llanelli	SA15 2LF	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Parc Gwledig Pen-bre Maes Parcio'r Lle Chwarae	SA16 0EJ	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Gorllewin Harbwr Porth Tywyn	SA16 0ER	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes